
# Llais Y Derwent

Rhif 38 Hydref 2018 | Papur Bro i Ddysgwyr Cymraeg a Chymry alltud Canolbarth Lloegr | 25c




## Diwedd haf a dechrau tymor 2018 - 2019

Mae'r tymor newydd wedi dechrau i Gylch Dysgwyr Cymraeg Derby efo ein cyfarfod cyntaf ar Sadwrn 8fed o Fedi. Daeth 16 ohonon ni at ein gilydd ar gyfer bore diddorol a hwylus iawn, yn Belper mae'r Noson Sgwrs a pheint misol dal i fynd ar y nos Fawrth cyntaf pob mis yn nhafarn Yr Hop, a draw yn Nottingham mae'r bore coffi 'Popeth yn Gymraeg' a chyfarfodydd misol y gymdeithas wedi ail cychwyn hefyd. Mi fydd Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby yn cynnal ein Hysgol Undydd Flynyddol ar Sadwrn 27 o Hydref. Dewch yn llu! Croeso yn ôl i bawb!

Mi aeth nifer o aelodau'r Cylch a Chymry Nottingham draw i Gymru yn ystod yr haf ar gyfer cyrsiau a digwyddiadau megis yr Eisteddfod. Mi ges i wythnos hyfryd yn Sir Benfro yn crwydro'r arfordir a threfi fel Tŷ Dewi, Abergwaun, Aberteifi. Hefyd mi es i ar chwibdaith o amgylch mynyddoedd y Preseli gan gynnwys ymweld â'r tafarn Pinc yn Rosebush a chofeb Waldo. Roedd y golygfeydd ar draethau a chlogwyni Sir Benfro yn odidog. Tra oedden ni'n ymweld â Chofeb Waldo yr oedd cân y gog i'w glywed yn y pellter.

Roedd Martin Coleman a finnau yn Nolgellau ym mis Gorffennaf ar gyfer yr Ysgol Haf yno, ac yr oeddwn i yn ôl yn Nolgellau yn yr un mis ar gyfer y Sesiwn Fawr. Os dych chi'n hoffi cerddoriaeth fywiog, o safon uchel raid mynd! Wedyn dyna oedd wythnos cyntaf Mis Awst a'r Eisteddfod yn y Bae yng Nghaerdydd. Cyn mynd doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w disgwyl. Ond rhaid dweud mi ges i fy siomi ar yr ochr gorau. Roedd hi'n Eisteddfod fendigedig efo nifer fawr o sioeau, cantorion a pherfformiadau a oedd yn dangos gwir ddawn y Cymry ar y gorau. Fel Eisteddfod heb ffens na 'maes traddodiadol' ac efo ffiniau agored roedd hi'n amlwg yn denu nifer o drigolion na fysai'n arfer mynd yn agos at yr Eisteddfod. Wnaeth ymweliad yr enwog Geraint Thomas tynnu torf o sawl mil o bobl i'r grisiau o flaen senedd Cymru.

Roedd safon y bandiau ar lwyfan y maes yn wych ac mi wnes i fwynhau'r Swper Stomp ar y nos Lun yng Nghanolfan y Mileniwm a chyngerdd 'Pendefig' y grŵp mawr gerddoriaeth gwerin yno ar y nos Iau yn arw.

Yn amlwg mi ddylai'r Eisteddfod yn y dyfodol cynnwys ardaloedd trefol fel lleoliad ar gyfer y brifwyl. Beth am i ni weld yr Eisteddfod yng nghanol trefi megis Caernarfon, Llandudno, Wrecsam, ag Abertawe? Hefyd mi fydd hi'n syniad mynd yn ôl i Gaerdydd bob hyn a hyn. Does dim dwywaith bod mynd i'r Eisteddfod yw'r ffordd gorau i ddysgwyr cael profiad unigryw Cymraeg a Chymreig.

Roedd hynny yn arbennig yn fy achos i, oherwydd eleni mi ges i'r anrhydedd mawr o gael fy urddo i'r Orsedd. Cafodd y seremoni ei chynnal ar fore dydd Gwener olaf yr Eisteddfod ac wedyn yr oeddwn i ar y llwyfan yng nghanolfan y Mileniwm yn ystod seremoni'r gadeirio. Profiad braf oedd gweld y gŵr ifanc, Gruffudd Eifion Owen yn derbyn y wobr. Mae o'n aelod o grwp o feirdd ifanc, cenhedlaeth newydd sy'n sgwennu ac adrodd eu barddoniaeth mewn digwyddiadau cymdeithasol a thafarndai. Mae'n deg dweud eu bod nhw'n mynd a barddoniaeth Cymraeg i'r Gymuned. Mae hyn yn ddatblygiad cyffrous ac yn dangos cryfder yr iaith Cymraeg yn y Gymru gyfoes.

**Jonathan Simcock**

# Hanes ar Lafar

Peth amser yn ôl cefais gyfle i weithio ar brosiect hanes ar lafar a dewis siarad gyda mam a'i ffrind gorau ers dros 70 mlynedd gan ganolbwyntio ar eu dyddiau ysgol yn y 30'au rhwng y ddwy Ryfel Byd. Roedd mam ac Anti Els wedi cyfarfod ar eu diwrnod cyntaf yn yr ysgol pan yn 5 oed yn Llandrillo a diddorol oedd mynd i'r archifdy yn Nolgellau i ddarganfod cofrestr yr ysgol gydag enw'r ddwy yna ar y diwrnod cyntaf. Yr argraff roedd gen i o addysg yn yr oes yna oedd plant yn eistedd mewn rhesi o ddesgiau, yn dysgu trwy ailadrodd gydag athrawon braidd yn ffyrnig yn bwgwth chwip i unrhyw un nad oedd yn tynnu'i bwysau.

Cadarnhaodd y ddwy mai'r 'tair R' oedd y prif bynciau ond hefyd yn dysgu pethau eraill, ond pob gwers trwy Saesneg heblaw am iaith Cymraeg, a'r athrawon bob amser yn siarad gyda'r plant yn Saesneg. Roedd adroddiad ysgol o 1929 yn yr archifdy gyda'r un prifathro ac athrawon yn dangos fod ystod eang o bynciau yn cael eu dysgu, a darllen yn y ddwy iaith, ac awyrgylch braf yn yr ysgol. Cadarnhaodd mam ac Anti Els hyn, fod disgyblaeth yn galed ond yn deg, ac roeddynt yn hoff o'r athrawon.

Roedd bechgyn a merched yn chwarae mewn gwahanol ran o'r buarth a hefyd yn cael rhai gwersi ar wahân. Y merched yn dysgu gwnïo a thrwsio dillad a chrefft a'r bechgyn yn gwneud gwaith coed a mynd allan i arddio. Yr argraff yw bod gerddi mewn ysgolion yn rhywbeth newydd a modern, ond yma'n ymddangos yn rhan o addysg yn y 30'au. Trwy wrando ar y ddwy roedd yn amlwg ei bod hi'n gymuned wledig eithaf tlawd, a'r sgiliau ymarferol a'r gallu i dyfu bwyd a gwaith llaw yn bwysig ac wedi aros gyda'r ddwy.

Roedd tlodi gwledig hefyd yn amlwg yn iechyd y plant gyda'r ddwy yn cofio salwch yn yr ysgol, ac yn ôl eu cof un achos o dipetheria pan gollwyd dau neu dri phlentyn. Dangosodd cofnodion y Prifathro o Ionawr 1931 fod hanner y plant yn absennol oherwydd y ffliw.

Gwellodd y gwasanaeth iechyd mewn ysgolion ac erbyn diwedd y 30'au roedd awdurdodau lleol yn darparu triniaeth ar gyfer dannodd, profion llygaid ac wrth gwrs y nyrs chwain. Adroddodd y ddwy hanes eithaf brawychus, fod plant wedi cael tynnu tonsils yn yr ysgol. Roedd hanes arall o fachgen yn cael ei glymu i gadair y deintydd a'r plant yn ei glywed yn gweiddi. Ond gwelais adroddiad arall o gamau i wella iechyd a hylendid gydag ymgyrch 'dwylo glan' ac adroddiad yn yr archifdy yn cadarnhau fod nyrs wedi ymweld â'r ysgol yn 1931 i wneud '*clean hand survey'*.

Dyma un darlun bach o brofiad ysgol wledig yn y 30'au ond mae'r ddwy wedi ein gadael erbyn hyn felly rwy'n falch o fod wedi cael y fraint i glywed a chofnodi'r hanes. Storiâu pobl gyffredin a manion bywyd sy'n cyfrannu cymaint mwy i'n hanes.

**Mary Sillitoe**



# Y Gêm

Os wy'n cofio'n iawn, 'roedd saith ohonom wedi dod ynghyd rhyw brynhawn Sadwrn oer ym 1950, (neu a'i 1951 oedd hi?), i chwarae gêm o rygbi; fy mrawd Eirwyn (yn unarddeg oed), minnau dwy flynedd yn iau, John (Roberts) Cefen-blewin, Wynford Tirpant, Gareth Garreglwyd, Trefor (Thomas) yr Hengrofft a Gordon Tir-y-Goitre. Roeddem wedi ymgasglu ar gae rhyw ganllath islaw ffermdy Garreg-lwyd ym mhentre Trap ger Llandeilo; nid wyf yn cofio enw'r cae ond fe allaf ddweud yn sicr ei fod ar oleddf ac yn cynnwys ambell i dwmpath o dail; byddai'n anodd darganfod darn o dir gwastad mewn ardal mor fryniog. Y cynllun oedd i dri o ddisgyblion ysgol eilradd Llandybie, sef Wynford, John a Gareth chwarae yn erbyn y pedwar arall ohonom yn cynrychioli ysgol gynradd pentre' Trapp, ysgol fach wledig sydd wedi cau erbyn hyn; yn anffodus nid oedd J B G Thomas, gohebydd rygbi enwog y Western Mail yn bresennol felly does dim hanes y gêm ar gael mewn print nac ar ffilm nac ar *U tube* chwaith!

Bu tipyn o helbul wrth godi'r pyst; roedd Gareth wedi cael gafael mewn pedwar postyn yn 'sgubor ei dad a dau ddarn o bren hir arall i wneud croesfarrau; daeth John Cefenblewin a'r bêl rygbi, hen bêl drom wedi gweld gwell ddyddiau a'i lledr wedi rhwygo mewn sawl man. 'Roedd dim llinellau gwynion wrth gwrs ar y cae, dim ond carreg ym mhedwar cornel o'r "maes". Ac felly ymlaen a hi, heb ddyfarnwr i chwibanu a heb fawr o syniad o'r rheolau heblaw ein bod yn gwybod beth oedd "forward pass"; bob un ohonom yn gwisgo ein sgidie bobdydd heblaw John eto; roedd ganddo ef bâr o sgidie rygbi iawn. Roedd yn amheus fod yr un ohonom wedi gweld gêm o rygbi swyddogol ac nid oedd yr un teledu yn yr ardal ond yr oeddwn i gyd yn gyfarwydd a gwrando ar y rygbi ar y radio pan fyddai Cymru yn chwarae; roeddwn yn gallu dychmygu campau Bleddyn Williams, John Gwilliam, Jack Mathews a

Ken Jones ac eraill ac yr oedd hyn bron cystal â bod yn y dorf ar Barc yr Arfau yng Nghaerdydd .

Felly, beth am y gêm? Wel braidd yn unochrog oedd y canlyniad; roedd y tri o'r ysgol eilradd llawer rhy gryf i bedwar ohonom ni o'r ysgol gynradd. A phan oeddem yn colli o ryw hanner can pwynt i driphwynt penderfynwyd rhoi'r gorau iddi wedi chwarae am dri chwarter awr. Pryd hynny triphwynt oedd am gais a dau bwynt am drosiad. Gan fod dim dyfarnwr nid oedd yr un cig gosb y diwrnod hwnnw. Ar ôl yr ornest aeth un neu ddau gartref yn union ac eraill i ddringo'r coed yn yr allt gyfagos. Atgofion plentyndod melys.

Yn awr mewn hanes o'r fath byddwch yn disgwyl clywed hanes disglair y chwaraewyr ar ôl iddynt dyfu; efallai eich bod yn disgwyl i mi 'sgrifenny fod un o leiaf wedi mynd ymlaen i gael gyrfa orfoleddus ym myd y chwareuon; ond na, nid felly bu; o'r saith ohonom y diwrnod hwnnw aeth chwech ymlaen i ffermio heb symud ymhell o'u milltir sgwâr; ac yn wir mae tri ohonynt yn byw ac yn ffermio ar fferm eu tadau hyd heddiw gan gynnwys fy mrawd Eirwyn. Fi oedd yr unig un o'r saith i chwilio am fywoliaeth tuhwnt i'r ardal a thuhwnt i Glawdd Offa o ran hynny; drwy drugaredd rydym i gyd ar dir byw hyd hyn heblaw Gordon Tirygoitre a fu farw o ddamwain rhyw wythnos ar ôl i mi sgrifenny hyn o eiriau; yn ddiweddarach bum yn chwarae tipyn o rygbi yn yr ysgol yn Llanymddyfri ond heb llawer o lwyddiant; a chwareuais tair neu bedair waith i dîm Neuadd Pantycelyn, yn Aberystwyth yn y chwedegau pan oeddwn yn fyfyrwr ac er fy mod yn berchen ar bâr o sgidie rygbi erbyn hynny, unwaith eto dim ond llanw bwlch oeddwn pan roedd y tîm yn brin o chwareuwyr ac nid wyf yn credu i mi sgorio cais. Ond am rhyw ddeugain munud ar gae Garreglwyd roedd y saith ohonom yn arwyr ac yn ochor gamu fel Bleddyn Williams, yn taclo fel Jack Mathews, cipio'r bêl yn y leinowt fel John Gwilliam a rhedeg fel Ken Jones; nhw oedd rhai o sêr tîm Cymru ar ddechrau'r pumdegau. A dyna oedd uchafbwynt fy nghyrfa ym myd chawareuon a minnau dim ond yn naw oed. Yn awr yn fy saithdegau mae chwarae scrabl neu gwyddbwyll yn fwy cysurus. Does dim rhaid rhedeg.

**Howell Price**

**Geirfa**

tir gwastad - level land

ar oleddf - on a slope

triphwynt - three points

allt (yn y de) - wood, woodland

ochrgamu - sidestep

ar dir byw - in the land of the living

gohebydd - correspondent;

tail - cow manure;

gwyddbwyll - chess



# Pethau Estron.

Does dim llawer o bobl yn achub cam wiwer lwyd, a dyw hi ddim yn anodd deall pam os ydych chi'n un o'r llu o bobl sy'n bwydo adar mân yn yr ardd. Mae gwiwer lwyd yn dwyn y peli saim, had blodau haul a bwyd cymysg drud iawn sy'n cynhesu robin goch yn y gaeaf, a ble mae cynhwysyddion y bwyd wedyn? Wel ar y llawr o dan y bwrdd adar mân, ac yn wag wrth gwrs, ac yn yfflon rhacs jibidêrs!

Pwy wedi dod â'r wiwer lwyd o America yn y lle cyntaf tybed? Mae miliynau yma erbyn hyn ac maen nhw'n bla i ddweud y lleiaf!

A dydy'r wiwer lwyd ddim yr unig beth mae rhywun wedi dwyn i'r wlad yma heb feddwl am y canlyniadau. Beth am y rhododendron? Efallai mai un yn eich gardd yn blodeuo yn hardd ond gwaetha'r modd, yng nghefn gwlad Cymru mae yna gannoedd o aceri sy'n gorchuddio â rhododendron. Mae'n blanhigyn sy'n lledu yn gyflym fel tân gwyllt ac yn lladd y planhigion a oedd yno ac yn troi'r amgylchedd o'i gwmpas yn lle anaddas i fywyd gwyllt.

Yn ôl erthygl yng nghylchgrawn Golwg yn y diweddar mae'r frwydr yn erbyn planhigion estron o fewn Parc Cenedlaethol Eryri yn cael ei cholli, enwedig yn erbyn rhododendron, Jac y Neidiwr a Chanclwm Japaneaidd.

Yn wreiddiol o Asia ac wedi eu cyflwyno i wledydd eraill yn enw ffasiwn mae pobl yn prynu nhw ac yn plannu nhw yn eu gerddi heb wybod eu bod nhw'n dianc o'r gerddi, yn mynd i bob man ac yn tagu popeth sy'n tyfu o'u cwmpas. Mae'n anodd ac yn gostus iawn i gael gwared ohonyn nhw.

Mae'r canclwm er enghraifft yn gallu gwreiddio ugain troedfedd fel cwlwm tanddaearol ac os ydych chi'n colli un darn bach o'r gwreiddiau bydd y planhigyn yn tyfu yn ôl!

Medd naturiaethwr Twm Elias, wrth drafod Canclwm a Jac y Neidiwr yng Ngolwg, bod y ddau blanhigyn yn lledaenu yn ei filltir sgwâr a thrwy Gymru gyfan fel tân gwyllt. Mae ei stori Jac y Neidiwr yn un ddifyr dros ben. Medd Twm fe gyflwynwyd hwnnw o ardal Cashmir yng ngogledd

yr India, i Gerddi Kew yn Llundain tua'r 1830au. “Roedd yn cael ei ystyried yn blanhigyn meddal o'r ardaloedd mwy cynnes ac yn cael ei dyfu mewn tŷ gwydr yno ac roedd yn ffynnu. Mae o'n flodyn pinc bendigedig sy'n dda iawn i ddenu gwenyn ac ati ac mae'r hadau mewn coden sy'n hongian ohono fe a pan ydach chi'n cyffwrdd hwnnw mae o'n ffrwydro gan daflu'r hadau i bob cyfeiriad - 12 i 15 troedfedd.

Roedd ffenest y ty gwydr yn digwydd bod yn agored yn Kew ac fe saethwyd yr hadau allan drwy'r ffenest, ac i ryw nant bach wrth ymyl ac fe ledodd wedyn yn gyflym iawn. Ond gwaeth na hynny, mi oedd o'n blanhigyn deniadol iawn ac yn cael ei werthu mewn canolfannau gerddi.”

**John Vivian Harris**

Geirfa.


achub cam - *to stick up for*
yn yfflon rhacs jibidêrs - *smashed to smithereens*

gwaetha'r modd - *more's the pity*
Jac y Neidiwr - *Himalayan Balsam*

Chanclwm Japanaiaidd - *Japanese knotweed*
yn ei filltir sgwâr - *in his local area, home ground*

dros ben - *extremely*
ac ati - *etc*

yn digwydd bod - *happened to be*.

**Menter Iaith Lloegr**

Grŵp ar Facebook ar gyfer dysgwyr a Chymry alltud ar draws Lloegr. Croeso i bawb!

menteriaithlloegr@mail.com


# Ymarfer Hawdd

Beth sydd yn eich dychryn chi wrth feddwl am gael sgwrs yn Gymraeg? Mae'n gam fawr a does gennych chi ddim syniad i ba gyfeiriad y bydd y sgwrs yn mynd, mae'n gwbl wahanol i'r sgyrsiau dach chi'n cael yn y dosbarth achos yna mae pawb ar yr un safon. Felly mae'n rhaid cael ffordd i foddi eich hun yn yr iaith heb achosi poen i chi. Mae Radio Cymru yn rhoi ffordd arbennig o dda i wrando ar sgyrsiau pobl eraill a does dim rhaid poeni nad ydych chi'n deall pob gair, daliwch ati i wrando ac mewn amser byddech chi'n dechrau deall - wir i chi! Roeddwn i heb siarad yr iaith am 25 o flynyddoedd a dim hyder o gwbl i gynnal sgwrs. Yn ffodus iawn lle o'n i'n byw yn Lloegr roedd Radio Cymru ar gael ac wrth dapio'r rhaglen gyntaf yn y bore roeddwn i'n gallu cael ynys o Gymreictod yn y car pan o'n i allan. Pob hyn a hyn roedd 'na air yn sefyll allan o'r lleill a dyna oedd ‘gair y diwrnod’ yr un oedd rhaid cael yr ystyr. Roedd fy ngeirfa yn ehangu a chyn bo hir dyna le oeddwn i'n dadlau yn uchel gyda'r radio os oeddwn i'n anghytuno a'r sgwrs. Gobeithio doedd neb yn fy ngweld!

Mi wnes i ddechrau darllen llyfrau hefyd, llyfrau ar gyfer plant yn eu harddegau, i ddechrau roeddwn i'n chwilio trwy'r geiriadur o hyd felly anodd iawn i gael y cyd-destun. Achos hynny doedd y stori ddim yn rhedeg felly wnes i benderfynu darllen y llyfr heb cymorth y geiriadur a thrio gwneud synnwyr o'r stori. Roeddwn i mor falch pan wnes i gyrraedd y diwedd a theimlo fy mod i wedi cael blas o'r stori. Ond dach chi'n gwybod be? Hyd yn oed ar ôl i chi ddarllen y llyfr mae'r geiriau yn dal yna ac ar yr ail dro mae popeth yn llawer cliriach, am un peth dach chi'n deall y cymeriadau yn well a hefyd mae eich ymennydd yn gwneud ei waith yn llawer gwell hefyd. Cofiwch, y dyddiau yma mae Radio Cymru yn darparu podlediadau i chi lawr lwytho, cymerwch fantais ohonyn nhw.

Un peth byddech chi'n siŵr o sylwi yw bydd ‘na eiriau dach chi'n deall eu hystyr pan ddach chi'n eu gweld nhw ond maen nhw'n anodd iawn i gofio pan ddach chi'n sgwrsio. Na phoeniwch, ar ôl i chi lwyddo i ddefnyddio'r gair unwaith mi fydd o yna yn eich cof y tro nesaf. Crëwch eich ynys o Gymreictod i'ch hun!

**Rob Evans**

Wedi'i hail argraffu efo caniatâd o'r gwefan ‘Gyda'n Gilydd’

http://gydangilydd.cymru/index.htm

**Cymdeithais Cymry Nottingham**
**Rhaglen hyd at Mis Rhagfyr**

**Nos Fercher 10 o Hydref** Simon Strange. RAYNET- Radio Cover in Times of National Emergency

**Nos Fercher 14 o Dachwedd** Mike Taylor. Harry Parry Wales Forgotten Jazz Band Genius


**Dydd Sul 9 o Ragfyr**. Gwasanaeth Carolau Dwyieithog am 2 o'r gloch y prynhawn.

**Nos Fercher 12** o Ragfyr. Parti Nadolig. O dan arweiniad Stephen Green

Cyfarfodydd yn dechrau am 7.15 y nos fel arfer.

Neuadd Eglwys St Andrews, Chaucer St.

Nottingham NG1 5JT



## Cylch Dysgwyr  Cymraeg Derby

Mae'r Cylch yn cynnal Gweithdy Cymraeg misol ac Ysgol Undydd Flynyddol. Mae'na groeso i bawb, boed yn Gymry Cymraeg neu ddysgwyr.

**Rhaglen Gweithdy Cymraeg 2018**
**Tŷ Cwrdd Y Crynwyr, St Helens St. Derby**

**Sadwrn 6-10-18** Gweithdy 9.30am-12.30pm

**Ysgol Undydd Cymraeg  Derby 27-10-18**

**Sadwrn 10-11-18** Gweithdy 9.30am-12.30pm

**Sadwrn 1-12-18** Gweithdy 9.30am-12.30pm

### Noson Sgwrs a pheint misol

7.00 - 9.00  Nos Fawrth
2-10-18
6-11-18
4-12-18
8-1-19
Yr Hop, Openwoodgate, Belper, Swydd Derby
Croeso i bawb!

menteriaithlloegr@mail.com
07864149078
www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com

SAY SOMETHING in WELSH .com



# Brenin y Coed

Efallai y bydd rhai ohonoch chi'n cofio i mi ysgrifennu erthygl am y gelynnen mewn rhifyn o 'Llais y Derwent' yn gynharach y llynedd. Wel, hoffwn ysgrifennu tipyn bach am goeden gyfarwydd arall, sef y dderwen.

Mae'n debyg bod pawb yn gallu adnabod y goeden hon, ond wyddech chi fod 600 o rywogaethau dros y byd? Mae gan ogledd America'r nifer fwyaf o dderw ac mae gan Tsieina 100 o rywogaethau. Ceir grwp o hen dderw yng Ngwald Pwyl a chredir bod y coed 'na'n 480 mlwydd oed. Defnyddiwyd techneg o'r enw  'dendrocronoleg' i ddarganfod oedran y coed. Ceir 109 o rywogaethau endemig ym Mexico. Rhywogaethau sy'n bodoli mewn ardal ddaearyddol benodol ydy 'rhywogaethau endemig'. Un esiampl dda o'r fath rhywogaeth ydy'r 'Maiden hair tree' sy'n cael ei gweld yn Nhalaith Chekiang, Tsieina. Daethpwyd o hyd i'r goden hon yn yr ardal hon yn 1758 ac mae hi heb gael ei gweld mewn lle arall ar y blaned.

Y ddwy dderwen byddwn ni'n gyfarwydd â nhw yma ym Mhrydain ydy 'Derwen mes coesynnog', sef 'English oak' a 'Derwen mes digoes', sef 'Sessile oak'.  Mae'r dderwen yn darparu pren cryf iawn. Hefyd, mae'n wdyn iawn ynglŷn â phryfed ac ymosodiad ffwng yn ogystal â chael marciau graen deniadol. Defnyddid estyllod derw ar longau'r Llychlynwyr yn y 9fed a 10fed ganrif ac yn yr Oesoedd Canol, defnyddid byrddau derw ar gyfer waliau panelog mewnol mewn adeiladau o bwys, sef Ty'r Cyffredin yn Llundain. Hyd at y 19 eg ganrif, adeiladid llongau llyngesol ac adeiladau a oedd gan fframiau pren efo derw. Yn ogystal â chael ei defnyddio ar gyfer smocio caws, cig a physgod, mae pren y dderwen yn cael ei ddefnyddio yng nghasgenni gwin. Ar gyfer y diben hwn, mae'r pren yn dod o dderw America neu dderw'r Ffrainc gan fod pobl wedi darganfod bod y derw 'ma'n rhoi rhinweddau ychwanegol i'r gwinoedd sy'n cynyddu eu dymunoldeb a phris. Defnyddir y


dderwen gorc, sy’n tyfu yn y Canoldir, i gynhyrchu caeadau poteli gwin. Mae’r rhan fwyaf o’r fath bren yn dod o Sbaen, Portiwgal, Algeria a Moroco. Defnyddid derw i gynhyrchu golosg a rheolid coedwigoedd yn ofalus ar gyfer y defnydd hwn. Un esiampl o’r fath goedwig yng Nghymru ydy coedwig ger Y Fal i’r gogledd o’r Fenni. Yn y lleoliad hwn, prysgoedid y coed er mwyn sicrhau cyflenwad parhaol o bren. Ar gyfartal, mae’r coed yn 80-100 mlwydd oed yn y goedwig hon, ond mae’r boncyffion yn hyn oherwydd y prysgoedio. Heddiw ym Mhrydain, mae’r dderwen yn cael ei defnyddio gan wneuthurwyr dodrefn cain. Mae’r mes yn wenwynig i lawer o anifeiliaid a phobl, ond eithriad ydy moch a fyddai’n cael eu rhydau mewn coedydd derw yn yr hydref er mwyn pesgi ar y mes cyn cael eu lladd. Adwaenid yr ymarfer fel ‘mesobr’ a bysai’n cael ei ymarfer ar borfa goediog, sef coedwigoedd a ddefnyddid ar gyfer pori anifeiliaid yn ogystal â darparu cyflenwad cynaliadwy o bren. Hyn yn oed heddiw, gellir gweld mesobr yn cael ei ymarfer yn y ‘New Forest’ yn Lloegr. Defnyddid yr un ymarfer yn y Sbaen ac adwaenid ‘mesobr’ fel ‘dehesa’ yn y wlad honno.

Oedd y dderwen yn bwysig ynglŷn â chrefydd. Ym mytholeg Roeg, oedd hi’n sanctaidd i Zeus a dehonglid siffrwd yn ei dail fel negeseuon oddi wrth y duwiau gan offeiriaid. Addolai pobl Indo-Ewropeaidd y dderwen a basen nhw’n cysylltu â’r goeden a mellt a tharanau. Ym mytholeg Lychlynnaidd, oedd y dderwen yn sanctaidd i Thor. Afraid dweud, oedd y dderwen yn bwysig iawn i’r bobl Geltaidd ac mae pawb sy’n siarad y Gymraeg yn ymwybodol o’r cysylltiad rhwng y geiriau ‘derwen’ a ‘derwydd’. Yn ddiweddarach, symbol y mudiadau’r ‘Ymddiriedolaeth Genedlaethol’ a ‘Coed Cadw’ ydy deilen y dderwen.

Efallai mai’r ‘Major Oak’ yn Sherwood Forest, swydd Nottingham ydy’r dderwen enwocaf ym Mhrydain. Credir ei bod hi’n 800-1100 mlwydd oed ac yn ôl llen gwerin, defnyddid y goeden hon gan Robin Hood a’i ddynion i gael cysgod. Amcangyfrifir bod pwysau’r Major Oak yn 23 tunnell a bod ei chengl yn 33 troedfedd. Cafwyd yr enw ‘Major Oak’ oddi wrth Major Hayman Rooke a roddodd disgrifiad o’r goeden yn 1790. Ers yr Oes Fictoraidd, mae canghennau’r Major Oak yn cael eu cefnogi gan system sgaffaldio ac yn 2003, dechreuwyd planhigfa yn Dorset trwy blannu glasbrennau a dyfwyd o fes y Major Oak. Diben y blanhigfa hon oedd astudiaeth ynglŷn â hanes a DNA'r Major Oak. I rai darllenwyr ‘Llais y Derwent’, atyniad lleol ydy’r goeden hon!

Wrth gwrs, mae’n bosib ysgrifennu rhagor am y goeden arbennig hon, ond mae lle i wneud hynny braidd yn brin yma! Er hynny, efallai fy mod i wedi codi awydd arnoch chi i ddysgu mwy am y dderwen, ei hanes diddorol a’i phwysigrwydd ym myd natur.

**Martin Coleman**




# William Williams Dw i'n falch ohonoch chi fy hynafiad

Dw i wedi bod yn darganfod fy hynafiaid. Ganwyd fy nhad, Idwal Jones, yn Neiniolen yng ngogledd Gwynedd (oedd ar y pryd Sir Gaernarfon). Cafodd ei holl hynafiaid yr wyf fi wedi'u canfod eu geni a marw yn Sir Gaernarfon. Ganwyd y rhan fwyaf ohonynt yn Neiniolen neu gerllaw. Ganwyd rhai yn Llyn, y penrhyn sy'n ffurfio rhan orllewinol y sir 'ma. Dyma hanes un o'r rhai a anwyd yn Llyn a fu farw yn Sir Gaernarfon.

Ganwyd William Williams, fy ngorhendaid (taid fy nain Maggie Jones), yng Nghlynnog, Sir Gaernarfon yn 1811 neu 1812.

Priododd o â Laura Jones ac roedd ganddynt deulu mawr. Dyma’r plant dwi'n gwybod amdanynt : Hugh (ganed 1840 a fu farw yn blentyn), Ellen (ganed 1842), Laura (ganed 1844), Elinor (ganed 1846), Elizabeth (ganed 1847 ac a ddaeth yn Elizabeth Owens), Jane (ganed 1851), Ann (ganed 1853), Mary (ganed

1855), a'r plentyn ieuengaf, ail Hugh (ganed 1857, fy hen daid Hugh William Williams).

Tua 1852 symudodd y teulu i Fachwen sy'n agos at Lyn Padarn, lle bu William a Laura yn byw am weddill eu bywydau. Mae dyfroedd Llyn Padarn yn fy ngwaed. Ganed fy hen daid, Hugh William Williams, yno yn 1856 neu 1857.

Ym mis Tachwedd 1878 cafodd William ddamwain angheuol yng nghwarel Dinorwig lle bu farw ei gyd-weithiwr, Griffith Jones o Glwt-y-bont - arwydd trist o'r hyn fyddai'n dod.

Roedd o'n weithiwr yn chwarel lechi Dinorwig. Roedd o'n dal i weithio ym mis Ionawr 1891, pan oedd yn 78 mlwydd oed ac yn ŵr gweddw. Roedd bywyd gweithwyr y chwarel yn galed iawn 'slawer dydd. Cafodd ddamwain angheuol yn y chwarel. Roedd o'n cerdded ar risiau serth a llithrig iawn. Llithrodd a thorrodd ei asgwrn cefn, a dioddefodd anafiadau drwg i'w ben ac anafiadau mewnol hefyd. Bu farw yn ysbyty'r chwarel ar y diwrnod canlynol - mae Ysbyty Chwarel Dinorwig bellach yn amgueddfa ddiddorol. Cafodd William ei gladdu ym mynwent Machpelah yn Neiniolen gyda'i wraig Laura a thri aelod arall o'u teulu. Mae eu carreg fedd yn cynnwys geiriau o Feibl William Morgan "Canys byw i mi yw Crist a marw sydd elw" [Philipiaid 1:21].

Roedd o'n anllythrennog - arwyddodd dystysgrif marwolaeth Laura gyda chroes. Anfonodd ei blant i'r ysgol. Ar y pryd nid oedd addysg yn rhad ac am ddim, felly roedd yn rhaid i'r gweithiwr 'ma dalu am eu haddysg. Mae disgynyddion William a Laura yn cynnwys gweithwyr chwarel llechi a swyddogion, athrawon a phenaethiaid, ficeriaid, syrfëwr, peiriannydd trydan, cyfrifydd a bargyfreithiwr. Da iawn William a Laura a diolch yn fawr iawn, gorhendaid a gorhennain.

**Tim Jones**

**Swydd Stafford**

(efo diolch i Mrs June Jones o Landwrog am ei help hi)

**Geirfa**

am weddill eu bywydau - for the rest of their lives

anllythrennog - illiterate

arwydd trist o'r hyn fyddai'n dod - a sad sign of what would come

corhendaid - great great grandfather

corhennain - great great grandmother

damwain angheuol - fatal accident

disgynyddion - descendants

dystysgrif marwolaeth - death certificate

grisiau serth a llithrig iawn - steep and very slippery steps

gwr gweddw - widower

Hynafiaid - ancestors

torrodd ei asgwrn cefn - he broke his spine



# Yr Hen Goleg, Aberystwyth, 2018

Hen Goleg Aberystwyth ger y môr,
fel castell hudol saif ar bwys y lli,
atgofion, ym mhob ffenestr a thwr,
o ddyddiau mebyd – dysgu, hwyl a sbri.

Ar bob ymweliad dros flynyddoedd hir,
rwy'n sefyll uwch y cwod yn edrych lawr
o'r balconi – yn disgwyl gweld, o hyd
sgarffiau streipïog nas defnyddir 'nawr.

Rwy'n clywed lleisiau drigain mlynedd 'nôl –
ond heddiw mae trawsffurfiad ar y gweill
a bywyd newydd i'r adeilad – rôl
ym musnes, celf, diwylliant a'r lleill.

I'r sawl sydd yn gyfrifol, clywch fy nghri –
peidiwch â sbwylio ein hatgofion ni!

**Jenni Wyn Hyatt**

**Geirfa**

hudol: enchanted

saif: (it) stands

mebyd: youth

ar bwys: beside

ymweliad: visit

cwod: quad

streipïog (3 sillaf) : striped

nas defnyddir: which are not used

drigain: sixty

trawsffurfiad: transformation

celf: art

diwylliant: culture

# Grwpiau Ymarfer Cymraeg yn Lloegr

Basingstoke Welsh Learners

www.cymraegbasingstoke.blogspot.com

Belper Welsh Class 07864 149078

Bore Coffi Popeth yn Gymraeg Nottingham

0772 968 8426

Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby

07864 149078

Cylch Siarad Llundain

www.londonwelsh.org/learn-welsh/y-cylch-siarad

U3A Congleton

Groups.u3a.congleton@gmail.com

Ware U3A Welsh Class

Milton Keynes U3A  welsh@mku3a.org

U3A Maghull & Lydiate

U3A Newport

U3A Merton Groups@mertonu3a.org.uk

Peterborough U3A

Clwb Siarad Cymraeg Preston

https://welshclubpreston.org/2014/01/11/clwb-siarad-preston-welsh-club/

**Cyfarfodydd SSIW**

**Gair i'r gall!  Edrych ar Forum SSIW i gadarnhau manylion y cyfarfod cyn mynd!**

**SSIW Wythnosol**

Brighton - Nos Lun, 8.30yn mewn tafarn yn Brighton (cysylltwch â markwatkinprice am fanylion)

Great Malvern - Dydd Iau, 12.30 to 2yp, Caffi Llyfrgell Great Malvern  (cysylltwch â meirionwen)

Lerpwl - Nos Lun, 7.30yn, Canolfan Cymry Lerpwl, Capel Bethel, Auckland Rd, L18 0HX (cysylltwch â mikefarnworth)

Rhydychen - Dydd Llun, 11.00 y bore, Welsh Mike's Bap Café, Abingdon Rd, OX1 4PE (Cysylltwch â johnwilliams_6)

Rhydychen  - Nos Fercher, 8.30yn, The Big Society, 95 Cowley Rd, Oxford, OX4 1HR (Cysylltwch â s-coates1)

Rhydychen - Dydd Iau, hanner dydd, Royal Blenheim pub, Pembroke/St Ebbe's St, OX1 1PT (cysylltwch â johnwilliams_6)

**SSIW Misol / pob pythefnos**

Bourton-on-Dunsmore  - Sadwrn, 20 Hydref, Wyevale Garden Centre (Blooms), Straight Mile, Bourton-on-Dunsmore, Coventry, CV23 9QQ (Cysylltwch â alice9)

Caergrawnt  - Nos Fawrth, 25 o Fedi, 7.15, The Alma, 26 Russell Ct, Cambridge CB2 1HW

( cysylltwch â  maynard)

Chelmsford  - Nos Fercher, 26 o Fedi, 7.00 (i dechrau 7.30yn), Chelmsford Cathedral Chapter House, Chelmsford (cysylltwch â  Gwenno)

Coventry  - dwywaith pob mis, 10y  bore, 1taf & 3ydd Dydd Iau, uwchben y caffi, Earlsdon Methodist Church, Coventry, CV5 6NF Coventry - ail nos Fercher y mis, 6.30yn, Litten Tree, Coventry (cysylltech ag andyjone)

Dorridge  - 2ail nos Lun y mis, 7.30yn The Forest Hotel, Dorridge (Cysylltwch ag Aled James)

Exeter - pob pythefnos, Nos Lun, 7.30yn, The White Hart, South St, EX1 1EE (Cysylltwch â carolinewhite am fanylion)

Gloucester - 2ail Nos Fercher y mis, 7.30yn, England's Glory Pub, London Rd, Gloucester (Contact nic)

Leeds - 4ydd Sadwrn y mis, 11.30 y bore, Brewery Tap, Leeds (Cysylltwch â yorkshireend)

Manceinion - 3ydd Sadwrn y mis, 10.30y Bore, Café Siop Shop, 53 Tib St, M4 1LS (Cysylltwch â jeanbrandwood)

Milton Keynes  - 1taf Nos Iau'r mis, 6.00yn i 7.30yn, Ye Olde Swan, Newport Rd, Woughton-on-the-Green, MK6 3BS (Cysylltwch â janjones_1)

Norfolk - Nos Iau, 27 o Fedi, 7.30 - 9.15yn, King's Head, Norwich St, East Dereham, Norfolk (Cysylltwch â Maynard)

Sheffield  - 2ail Sadwrn y mis, 1pm, Hagglers Café, Queens Rd, S2 4DU (Cysylltwch â hilary_coveney)

Amwythig - 1taf & 3ydd Nos Iau'r mis, 7.30 yn, Wild Pig Hotel, Amwythig, SY3 9JT (Cysylltwch â bryanroberts)

South East Cornwall  - Dydd Iau, 4 Hydref, 10.30 y bore, lleoliad i'w cadarnhau (Cysylltwch â LillianMSH)

Sussex/Hants/Surrey (CACEN group), Mis Hydref 1pm, lleoliad i'w cadarnhau (Cysylltwch â markwatkinprice  am fanylion)

Winchester  - pob yn ail wythnos , Nos Iau, 7yn, The Cart and Horses, in London Rd, Kings Worthy, Winchester, SO23 7QN (Cysylltwch â mikebrown am fanylion)

## Llais Y Derwent

Os dych chi eisiau sgwennu erthygl i 'Lais' cysylltwch trwy anfon neges e-bost  at

menteriaithlloegr@mail.com  Mae hen gopïau o Lais Y  Derwent  ar gael  am ddim.

www.derbywlelshlearnerscircle.blogspot.com